



Cynllun Strategol y Gymraeg

2026 - 2029



- Ein **gweledigaeth** yw gwella ansawdd addysg a hyfforddiant a deilliannau i bob dysgwr yng Nghymru. Ein **cenhadaeth** yw cefnogi darparwyr addysg a hyfforddiant i ddatblygu diwylliant hunanwella a dysgu trwy ein gwaith cyngor, arolygu a meithrin gallu. Rydym yn gweld yr iaith Gymraeg yn rhan annatod o'r weledigaeth hon.
- Rydym yn falch o fod yn sefydliad dwyieithog.
- Rydym yn coleddu'r Gymraeg fel dewis iaith i lawer ac fel rhan o'n diwylliant bob dydd.
- Rydym yn croesawu adborth ar ein hamcanion a byddwn yn falch o drafod awgrymiadau am y modd y gallem wella ein hamcanion a datblygu camau gweithredu cefnogol.

Cymraeg 2050 Miliwn o Siaradwyr Cymraeg

Fel corff cyhoeddus, rydym yn ymdrechu i alinio ein gwaith â pholisi Llywodraeth Cymru i gyflawni miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 fel yr amlinellir yn Cymraeg 2050 Miliwn o siaradwyr Cymraeg. (2017).

Gwnawn hyn drwy ymgorffori'r nodau yn ein hamcanion strategol ac, felly, mewn penderfyniadau ar draws ein sefydliad, gan gynnwys datblygiad y Cynllun Iaith Gymraeg Strategol hwn.

Mae dyletswydd statudol ar Estyn i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg fel sefydliad sy'n dod o fewn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016. Rhestrir y ddeddfwriaeth berthnasol isod. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu ein Hamcanion Iaith Gymraeg am y cyfnod 2021-2024.

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

- Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ('y Mesur') yn rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru. Mae'n dweud hefyd mai prif nod Comisiynydd y Gymraeg ('y Comisiynydd') wrth arfer ei swyddogaethau yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Wrth arfer swyddogaethau yn unol â'r prif nod hwn, mae'n rhaid i'r Comisiynydd roi ystyriaeth i'r canlynol:
- statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru
- y dyletswyddau i ddefnyddio'r Gymraeg sydd wedi eu gosod drwy gyfraith, a'r hawliau sy'n deillio o allu gorfodi'r dyletswyddau hynny
- yr egwyddor na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru, ac
- yr egwyddor y dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dewis gwneud hynny.

Safonau'r Gymraeg

- Mae'r Mesur yn rhoi grym cyfreithiol i statws swyddogol y Gymraeg drwy alluogi gorfodi safonau'r Gymraeg ('safonau') ar gorff.¹
- Mae pum dosbarth o safonau:
 - safonau cyflenwi gwasanaethau
 - safonau llunio polisi
 - safonau gweithredu
 - safonau hybu,² a
 - safonau cadw cofnodion.³
- Mae safonau yn egluro sut dylai corff drin y Gymraeg a'i defnyddio mewn senarios gwahanol, er enghraifft, wrth anfon gohebiaeth, delio â galwadau ffôn, darparu gwasanaethau ar-lein neu wyneb yn wyneb, llunio polisiâu neu wrth ddarparu gwasanaethau yn fewnol i staff

Mae ein Hadroddiad Blynyddol ar yr Iaith Gymraeg yn Estyn ([Polisiâu corfforaethol](#)) yn manylu mwy ar ein gwaith mewn cysylltiad â'r Gymraeg.

Mae Estyn wedi mabwysiadu'r egwyddor ein bod yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gyflawni busnes cyhoeddus yng Nghymru. Mae ein [Polisi Iaith Gymraeg](#) yn amlinellu'r ffordd y mae Estyn yn gweithredu yn unol â'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru. Mae'r polisi hwn yn amlinellu ein hymagwedd at y modd y darparwn ein gwasanaethau Cymraeg yn fewnol ac yn allanol. Mae'r polisi yn rhoi ystyriaeth lawn i ofynion safonau'r Gymraeg ac yn dynodi ein harfer bresennol a'n harfer sy'n datblygu ar draws y meysydd sy'n dod o dan y safonau hynny.

Rydym yn hyrwyddo'r Gymraeg drwy gyflawni ein hamcanion strategol, trwy dynnu sylw darparwyr addysg at eu dyletswydd eu hunain i hyrwyddo'r Gymraeg. Mae ein hamcanion iaith Gymraeg yn cynnwys y modd yr ystyriwn yr iaith Gymraeg a materion diwylliannol Cymreig pan fyddwn yn arolygu a rheoleiddio, a sut byddwn ni'n sicrhau y bydd dealltwriaeth lawn gan ein staff ein hunain a'r rheiny a gyflogwn ar contract o'n rhwymedigaethau cyfreithiol a'n cydymffurfiaeth, yn ogystal â'n gweledigaeth o ran y Gymraeg.

¹ Yng nghyd-destun y safonau, mae 'corff' yn sefydliad a chanddo ddyletswydd i gydymffurfio ag un neu fwy o safonau.

² Nid yw'r dosbarth safonau hwn wedi'i gynnwys yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016.

³ Gall Gweinidogion Cymru, trwy reoliadau, wneud darpariaeth arall ynglŷn â'r cyfryw safonau (h.y. safonau ategol).

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Gellir cael mwy o wybodaeth am Fesur y Gymraeg a'r modd y mae hwn yn berthnasol i gyrrff rhestredig, yn cynnwys Estyn, trwy ddilyn y dolenni isod:

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

<https://www.legislation.gov.uk/cy/mwa/2011/1/contents/enacted>

Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016

<https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2016/182/schedule/1/made>

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn amlinellu diben cyffredin i gyflawni ansawdd bywyd gwell a pharhaus i ni gyd. Cynrychiolir y diben cyffredin gan gyfres integredig o saith o nodau llesiant. Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith.

Er nad yw'r ddyletswydd yn berthnasol i Estyn (nid ydym yn gorff cyhoeddus rhestredig at ddibenion y Ddeddf), rydym, serch hynny, yn cefnogi ysbryd y Ddeddf ac yn ceisio adeiladu'r elfennau lles angenrheidiol a'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn ein cynllunio, llywodraethu a chyflawni gweithredol. Yn ogystal, amcanwn i alinio ein hymagwedd at y Gymraeg yn briodol gyda'r Ddeddf mewn cysylltiad â'r Gymraeg, a'i chynnwys o fewn y cysyniad ymgysylltiad sifil fel 'gweithredu at ddiben hyrwyddo neu wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol neu ddiwylliannol Cymru.' Mae'r Ddeddf yn datgan yn glir hefyd fod iaith Gymraeg sy'n ffynnu yn rhan hanfodol o un o'r saith nod llesiant.

Gweler [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015 Yr Hanfodion](#) i gael mwy o wybodaeth.

Sut rydym wedi datblygu ein hamcanion iaith Gymraeg

Mae ein hamcanion iaith Gymraeg wedi cael eu llunio trwy ymgynghori'n fewnol â staff, er enghraifft trwy ein Gweithgor Iaith Gymraeg a thrwy grwpiau ffocws a holiaduron i bob aelod o staff.

Amcanion iaith Gymraeg 2026-2029

Yn ein cynllun blaenorol, nodom 5 amcan. Yn ail fersiwn y strategaeth, byddwn yn canolbwyntio ar 3 maes allweddol.

1. Datblygu'r gweithlu
2. Hyrwyddo a defnyddio'r Gymraeg yn fewnol
3. Hyrwyddo a defnyddio'r Gymraeg yn allanol

Ar gyfer pob amcan, rydym hefyd wedi amlinellu camau gweithredu allweddol y byddwn yn eu cymryd i'w cyflawni nhw a'n meini prawf llwyddo. Bydd pob amcan yn amodol ar argaeledd y gyllideb angenrheidiol.

Crynodeb o'r Amcanion Iaith Gymraeg

Amcan 1:

Datblygu'r gweithlu

Ein pobl yw ein hased mwyaf gwerthfawr, a byddwn yn sicrhau bod gan Estyn adnoddau dynol digonol i gydymffurfio â'i ofynion cyfreithiol a chynnig gwasanaeth cwbl ddwyieithog i'r cyhoedd a rhanddeiliaid.

Ein nod yw grymuso aelodau staff ble bynnag y maent ar eu taith iaith.

Byddwn yn darparu cyfleoedd ystyrlon i aelodau staff wella'u medrau Cymraeg a gwneud cynnydd ar hyd y continwwm iaith, gan ddefnyddio'u medrau iaith mewn cyd-destunau ffurfiol ac anffurfiol.

Byddwn yn cynnal dadansoddiad rheolaidd manwl o fedrau iaith aelodau staff i gadarnhau ble maent ar y continwwm iaith ar hyn o bryd. Trwy ddefnyddio offer priodol fel Gwiriwr Lefel Iaith Gymraeg Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, byddwn yn gallu mapio'u safle ar y Cwricwlwm Cenedlaethol Cymraeg i Oedolion sy'n gyson â'r Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd ar gyfer leithoedd (CEFR) a fframwaith y Gymdeithas Profwyr Iaith yn Ewrop (ALTE).

[Lefelau dysgu | Dysgu Cymraeg](#) [Tabl CEFR](#)

Lefel Canolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol * Arholiadau Cymraeg i Oedolion CBAC sydd ar gael	Lefel CEFR	Lefel ALTE
Mynediad *	A1	Mynediad
Sylfaen *	A2	1
Canolraddol *	B1	2
Uwch *	B2	3
Hyfedredd	C1	4
-	C2	5

Cwricwlwm Cenedlaethol Cymraeg i Oedolion—mae trosolwg o ddatganiadau lefelau gallu yn cael ei ddarparu yn y ddogfen hon [Sgiliau Cymraeg | Dysgu Cymraeg](#)

Byddwn yn gallu targedu cyrsiau ar gyfer hyfforddiant mewnol yn strategol yn unol ag anghenion unigol a chorfforaethol ar ôl coladu'r wybodaeth uchod.

Camau gweithredu

- Bydd pob un o'r aelodau staff newydd yn cynnal asesiad o'u medrau Cymraeg wrth iddynt ddechrau cyflogaeth.
- Sicrhau bod pob un o'r dechreuwyr newydd, p'un a ydynt yn barhaol neu dros dro, yn dilyn un o'r ystod o gyrsiau yn rhad ac am ddim <https://learnwelsh.cymru/work-welsh/work-welsh-courses/work-welsh-taster-courses/Short online taster courses> trwy'r cynllun Cymraeg Gwaith o fewn cyfnod amser penodol. Bydd hyn yn cael ei fonitro gan adnoddau dynol.
- Rheolwyr llinell i drafod yn ystod y cyfnod ymsefydlu ac mewn prosesau rheoli perfformiad parhaus dilynol a oes angen i staff wella'u medrau Cymraeg neu a ydynt yn dymuno gwneud hynny. Byddwn yn annog rheolwyr llinell i weithio gydag AEF i drefnu cyfleoedd i gysgodi gweithgarwch arolygu cyfrwng Cymraeg i ddysgwyr sy'n meddu ar hyfedredd addas a staff y mae angen iddynt fagu eu hyder wrth ddefnyddio'r iaith mewn cyd-destun proffesiynol. Dylai cyfleoedd o'r fath gynnwys gweithgareddau a fydd yn fuddiol i ddatblygiad ieithyddol a phroffesiynol yr unigolyn hwnnw, a'u cytuno ymlaen llaw.
- Byddwn yn darparu cyfres o opsiynau hyfforddi sy'n cydnabod gwahanol batrymau gwaith aelodau staff, e.e. cyrsiau wyneb yn wyneb, ar-lein, hybrid a hunanastudio a gynhelir dros wahanol gyfnodau amser, h.y. ar wahanol adegau o'r dydd / gyda'r nos, cyrsiau wythnosol neu gyrsiau bloc, cyfleoedd trochi preswyl, ac ati.
- Byddwn yn cynnig llwybrau dilyniant clir ar gyfer staff ble bynnag y maent ar y continwwm iaith i barhau i wella'u medrau Cymraeg. Gallai hyn fod o sesiynau cyfarfod a chyfarch sylfaenol i sesiynau i wella defnydd siaradwyr rhugl o'r iaith at ddibenion proffesiynol.
- Bydd ein Polisi Absenoldeb Arbennig yn sicrhau bod amser yn cael ei roi i aelodau staff fynychu hyfforddiant o'r fath yn unol â'n harweiniad cysylltiedig ar absenoldeb astudio.
- Byddwn yn datblygu mwy o gyfleoedd i staff ymarfer eu medrau Cymraeg trwy fentrau fel sesiynau siarad ar-lein ac wyneb yn wyneb, a sefydlu system fentora.
- Cynllunio i sicrhau gallu digonol yn y Gymraeg i gyflwyno ein gweithgareddau arolygu a gweithgareddau eraill.

Meini prawf llwyddo

- Cynyddu niferoedd y staff sy'n cymryd rhan mewn hyfforddiant i wella'u medrau Cymraeg.

- Mwy o integreiddio dysgwyr Cymraeg sy'n hwyluso'u defnydd o'r iaith gyda chydweithwyr.

Cynllun Gweithredu: Eir i'r afael â'r pwyntiau uchod yn ein polisi diweddaraf ar ddefnydd mewnol o'r Gymraeg.

Amcan 2:

Hyrwyddo a defnyddio'r Gymraeg yn fewnol

Yn unol â disgwyliadau Comisiynydd y Gymraeg, byddwn yn creu polisi uchelgeisiol i hyrwyddo'r defnydd mewnol o'r iaith yn seiliedig ar y themâu canlynol:

Arweinyddiaeth: creu a chynnal yr amodau cywir yn y sefydliad, e.e.

- arwain trwy esiampl
- sicrhau atebolrwydd a strwythurau cadarn
- cyfathrebu'n fewnol yn effeithiol
- datblygu delwedd fel sefydliad Cymraeg

Magu hyder: creu'r amodau i bawb deimlo'n hyderus yn defnyddio'r Gymraeg trwy

- gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg (ffurfiol ac anffurfiol)
- codi ymwybyddiaeth
- dangos uchelgais

Seilwaith gweinyddol: sicrhau bod prosesau mewnol yn creu amgylchedd lle gall y Gymraeg ffynnu, gan gynnwys

- materion cyflogaeth, contractau, polisïau
- defnyddio technoleg
- prosesau cyfieithu

Camau gweithredu i gynnwys y canlynol

- Byddwn yn creu polisi i gynyddu'r defnydd mewnol o'r Gymraeg gyda chynllun gweithredu sydd â deilliannau mesuradwy yn unol â'r egwyddorion uchod a rennir yn ystod ein proses ymsefydlu staff.
- Parhau i ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith i'r holl aelodau staff newydd (parhaol neu dros dro) a sicrhau bod pwyslais cryf ar y cynnig rhagweithiol gan bawb o fewn y sefydliad.
- Datblygu lle ar ein mewnwrwyd ar gyfer adnoddau defnyddiol, er enghraifft sut i gadeirio cyfarfodydd yn ddwyieithog, ac ati. [Atodiad: Cadeirio Cyfarfodydd Cymraeg a Dwyieithog.pdf](#)

- Parhau i gynyddu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a'i diwylliant trwy gyfathrebiadau yn ein diweddariadau staff ar-lein, e.e. ymadrodd Cymraeg yr wythnos, dathlu Dydd Santes Dwynwen, Dydd Gŵyl Dewi, Dydd Miwsig Cymru, Eisteddfod yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol, Dydd Shwmae/Su'mae, ac ati.
- Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ar ein sianelau cyfathrebu mewnol i gynyddu a normaleiddio'r defnydd o'r iaith.
- Sicrhau bod cydweithwyr yn cael eu diweddaru'n rheolaidd am wybodaeth sy'n berthnasol i ddefnyddio'r Gymraeg a'u bod yn cael cyfleoedd ystyrlon a chyson i ddefnyddio a datblygu eu medrau iaith.
- Byddwn yn parhau i ddefnyddio prosesau sy'n monitro cydymffurfiaeth ac yn meithrin diwylliant o hunanasesu ac asesu cymheiriaid gan arwain at hunanfyfyrion buddiol a gwelliant parhaus. Byddwn yn amcanu at gynyddu perchnogaeth o'r polisi iaith Gymraeg a chydymffurfio i ffwrdd oddi wrth unigolion allweddol o fewn adrannau penodol drwy hyrwyddo diwylliant o gyfrifoldeb a pherchnogaeth gorfforaethol a cholegol.
- Byddwn yn gweithio i sefydlu system fentora / gyfeillio i gynorthwyo â normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg rhwng cydweithwyr.
- Cynyddu proffil yr iaith a defnydd o'r iaith mewn hyfforddiant mewnol a gweithgareddau datblygiad proffesiynol gan siaradwyr mewnol ac allanol, yn cynnwys defnyddio cyfieithu ar y pryd, lle bo'n briodol.
- Annog staff i ddefnyddio logos sy'n cydnabod eu bod yn siaradwyr Cymraeg neu'n ddysgwyr Cymraeg ar eu cefndiroedd rhithwir ar alwadau fideo-gynadledda mewnol (ac ar alwadau allanol, yn ogystal), a pheidio â thybio bod cydweithwyr yn gwybod beth yw eu lefel hyfedredd yn y Gymraeg.

Meini prawf llwyddo

- Niferoedd mwy o aelodau staff yn adrodd eu bod yn gwneud defnydd cynyddol o'r Gymraeg yn eu gwaith mewnol. Byddwn yn defnyddio adnoddau Theori Newid Comisiynydd y Gymraeg i gynorthwyo wrth fesur hyn.
- Cyflawni proffil uwch ar gyfer yr iaith yn ein cyfathrebiadau a'n digwyddiadau mewnol.

Cynllun Gweithredu: Eir i'r afael â'r pwyntiau uchod yn ein polisi diweddaraf ar ddefnydd mewnol o'r Gymraeg.

Amcan 3:

Hyrwyddo a defnyddio'r Gymraeg yn allanol

Byddwn yn hyrwyddo cysyniad y 'cynnig rhagweithiol' yn hytrach nag ymagwedd adweithiol at wasanaethau Cymraeg. Byddwn yn parhau â'n prosesau hunanasesu ac asesu cymheiriaid yn fewnol er mwyn mesur effeithlonrwydd ein trefniadau cydymffurfio presennol. Byddwn yn ceisio gwella'n safonau cyflenwi gwasanaethau yn gyson a chydymffurfio â deddfwriaeth fel y waelodlin ofynnol i ni allu gwella ohoni.

Drwy ymgysylltu'n gadarnhaol ac ymrwymo i'r amcanion uchod, byddwn yn amcanu at arwain drwy esiampl, fel sefydliad sy'n hyrwyddo ac yn defnyddio hunanwerthuso gonest ac agored ac yn coleddu pwysigrwydd y Gymraeg i'n gweledigaeth ddiwylliannol ac addysgol.

Ein nod fydd cael ein hystyried yn enghraifft o arfer orau yn ymwneud â hyrwyddo, cydymffurfio ac arfer addysgol effeithiol yn fewnol ac ar draws y sectorau addysg.

Camau gweithredu

- Byddwn yn cynnal ymgyrchoedd yn atgoffa'r cyhoedd a rhanddeiliaid yr hoffem iddynt gyfathrebu â ni yn Gymraeg.
- Meithrin a normaleiddio pwysigrwydd hyrwyddo disgwyliadau uchel o ran cydraddoldeb a chynhwysiant ieithyddol. Bydd hyn yn cynnwys darparu hyfforddiant i gydweithwyr sy'n rheoli rhai eraill ar ddefnyddio'r Gymraeg yn eu rôl fel rheolwyr.
- Ymchwilio i'r dechnoleg sydd ar gael i gynyddu a gwella'r defnydd o'r Gymraeg yn fewnol ac yn allanol, er enghraifft defnyddio offer cyfieithu deallusrwydd artiffisial (AI).
- Mesur effeithlonrwydd cydymffurfiaeth â deddfwriaeth drwy'r Gweithgor Iaith Gymraeg a diwygio fformat y grŵp hwn, os oes angen, i wella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y grŵp.
- Parhau i weithredu a datblygu ein canllawiau ar ddefnydd rhagweithiol o'r Gymraeg yn ystod digwyddiadau – gweler Atodiad 1.
- Sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg o ran cynnal cyfarfodydd gyda rhanddeiliaid a'r cyhoedd trwy ddefnyddio cyfieithu ar y pryd yn rhagweithiol ac yn arferol, wyneb yn wyneb ac yn rhithwir, trwy gyfieithu dwy ffordd ar sianelau ar wahân yn ystod digwyddiadau a gynhelir ar Teams.

- Parhau ac ymestyn ein defnydd o logos Cymraeg Gwaith ac ati yn ein holl gyfathrebiadau ysgrifenedig ac ar lwyfannau rhithwir, fel llwyfannau fideo-gynadledda, fel rhan o'n templedi hunaniaeth gorfforaethol.
- Gweithio i gyflawni deilliannau cadarnhaol wrth i ni ddelio â thîm cydymffurfio Comisiynydd y Gymraeg.
- Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg, diwylliant Cymru a'i chyd-destun hanesyddol trwy weithgarwch arolygu, gan gynnwys adroddiadau arolygu ac adroddiadau thematig, yn unol â'n gweledigaeth ar gyfer addysg yng Nghymru.
- Hyrwyddo'r Gymraeg drwy gyfranogi'n gyson mewn ymgynghoriadau cyhoeddus a deddfwriaethol perthnasol.
- Sicrhau cysondeb mewn negeseuon ac argymhellion yn ymwneud â'r Gymraeg mewn adroddiadau arolygu a/neu adroddiadau thematig sy'n gyson â'n trosolwg strategol mewn cysylltiad â'r iaith ac addysg.

Meini prawf llwyddo

- Niferoedd mwy o randdeiliaid ac aelodau'r cyhoedd yn ymgysylltu â ni trwy gyfrwng y Gymraeg (lle gellir mesur hyn). E.e. fforymau rhanddeiliaid, ymgysylltu drwy'r cyfryngau cymdeithasol, ac ati.
- Gostwng nifer y cwynion yn ymwneud â diffyg gwasanaethau Cymraeg neu safon y gwasanaeth a gyflawnwyd.
- Trwy fonitro effaith ein cyfraniadau at brosesau ymgynghori.
- Trwy fesur ystod yr argymhellion mewn adroddiadau yn ymwneud â'r Gymraeg a dadansoddi'u cysondeb, eu dilysrwydd strategol a'u heffaith ar ddeilliannau ar draws sectorau drwy'r Grŵp Swyddogion Iaith Gymraeg.

Cynllun Gweithredu: Hyrwyddo a defnyddio'r Gymraeg yn allanol

Cam gweithredu	Cyfrifoldeb	Dyddiad	Monitro
Byddwn yn cynnal ymgyrchoedd yn atgoffa'r cyhoedd a rhanddeiliaid bod arnom	Cyfathrebu	Parhaus	Yng nghyfarfodydd tymhorol y

eisiau iddynt gyfathrebu yn Gymraeg â ni.			Gweithgor Iaith Gymraeg
Meithrin a normaleiddio pwysigrwydd hyrwyddo disgwyliadau uchel o ran cydraddoldeb a chynhwysiant ieithyddol. Bydd hyn yn cynnwys darparu hyfforddiant i gydweithwyr sy'n rheoli rhai eraill ar ddefnyddio'r Gymraeg yn eu rôl fel rheolwyr.	Adnoddau Dynol, Pobl a Swyddog Arweiniol y Gymraeg ar gyfer Cymraeg Gorfforaethol	Gweithredu llinell amser yn y polisi sydd ar ddod ar ddefnydd mewnol o'r Gymraeg	Yng nghyfarfodydd tymhorol y Gweithgor Iaith Gymraeg
Ymchwilio i'r dechnoleg sydd ar gael i gynyddu a gwella'r defnydd o'r Gymraeg yn fewnol ac yn allanol, er enghraifft defnyddio offer cyfieithu deallusrwydd artiffisial (AI).	Gwasanaethau Corfforaethol	Parhaus	Yng nghyfarfodydd y CSMT tymhorol ac yng nghyfarfodydd tymhorol y Gweithgor Iaith Gymraeg
Mesur effeithlonrwydd cydymffurfiaeth â deddfwriaeth drwy'r Gweithgor Iaith Gymraeg a diwygio fformat y grŵp hwn, os oes angen, i wella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y grŵp.	Cyfarwyddwr Cynorthwyol sydd â chyfrifoldeb am faterion corfforaethol y Gymraeg a Swyddog Arweiniol y Gymraeg ar gyfer Cymraeg Gorfforaethol	?	?
Parhau i weithredu a datblygu ein canllawiau ar ddefnydd rhagweithiol o'r Gymraeg yn ystod digwyddiadau – gweler Atodiad 1.	Digwyddiadau	Parhaus	Yng nghyfarfodydd y tîm Digwyddiadau ac yng nghyfarfodydd tymhorol y Gweithgor Iaith Gymraeg
Sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg o ran cynnal cyfarfodydd gyda rhanddeiliaid a'r cyhoedd trwy ddefnyddio cyfieithu ar y pryd yn rhagweithiol ac yn arferol, wyneb yn	Digwyddiadau	Parhaus	Yng nghyfarfodydd tymhorol y Gweithgor Iaith Gymraeg

wyneb ac yn rhithwir, trwy gyfieithu dwy ffordd ar sianelau ar wahân yn ystod digwyddiadau a gynhelir ar Teams.			
Parhau ac ymestyn ein defnydd o logos Cymraeg Gwaith ac ati yn ein holl gyfathrebiadau ysgrifenedig ac ar lwyfannau rhithwir, fel llwyfannau fideo-gynadledda, fel rhan o'n templedi hunaniaeth gorfforaethol.	Timau Cyfathrebu a Digwyddiadau	Parhaus	Mewn cyfarfodydd tîm ac yng nghyfarfodydd tymhorol y Gweithgor Iaith Gymraeg
Gweithio i gyflawni deilliannau cadarnhaol wrth i ni ddelio â thîm cydymffurfio Comisiynydd y Gymraeg.	Cyfarwyddwr Cynorthwyol sydd â chyfrifoldeb am faterion corfforaethol y Gymraeg a Swyddog Arweiniol y Gymraeg ar gyfer Cymraeg Gorfforaethol	Mewn cyfarfodydd gyda Swyddogion Cydymffurfio Comisiynydd y Gymraeg	Gweithgor Iaith Gymraeg
Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg, diwylliant Cymru a'i chyd-destun hanesyddol trwy weithgarwch arolygu, gan gynnwys adroddiadau arolygu ac adroddiadau thematig, yn unol â'n gweledigaeth ar gyfer addysg yng Nghymru.	Pob un o'r staff arolygu a'r arweinwyr sector	Parhaus	Grŵp Arbenigwyr Cymraeg
Hyrwyddo'r Gymraeg drwy gyfranogi'n gyson mewn ymgynghoriadau cyhoeddus a deddfwriaethol perthnasol.	Yr UDRh a'r Ysgrifenyddiaeth	Parhaus	Grŵp Arbenigwyr Cymraeg
Mesur ystod yr argymhellion mewn adroddiadau arolygu ac	Grŵp Arbenigwyr Cymraeg	Parhaus	Cyfarfodydd y Grŵp Arbenigwyr

adroddiadau thematig yn ymwneud â'r Gymraeg a dadansoddi'u cysondeb, eu dilysrwydd strategol a'u heffaith ar ddeilliannau ar draws sectorau.			Cymraeg ac adroddiadau i'r Gweithgor Iaith Gymraeg
Sicrhau cysondeb mewn negeseuon ac argymhellion yn ymwneud â'r Gymraeg mewn adroddiadau arolygu a/neu adroddiadau thematig sy'n gyson â'n trosolwg strategol mewn cysylltiad â'r iaith ac addysg.	Arweinwyr sector	Parhaus	Grŵp Arbenigwyr Cymraeg

Atodiad 1: Arweiniad ar gyfer defnyddio'r Gymraeg mewn Digwyddiadau

Wrth drefnu digwyddiad cyhoeddus yng Nghymru, mae'n hanfodol sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Rydym yn gorff y mae'n ofynnol iddo gydymffurfio â safonau'r Gymraeg, yn ôl y gyfraith. Mae sicrhau ein bod yn ddwyieithog, pryd bynnag a ble bynnag y bo modd, yn dangos cynhwysiant ac yn arddangos yr iaith Gymraeg.

Hyrwyddo Digwyddiadau

- Bydd yr holl ddeunydd hyrwyddo, er enghraifft trwy'r e-bost, y cyfryngau cymdeithasol neu dudalennau'r we, yn ddwyieithog.

Ffurflenni Cais, Ffurflenni Cofrestru ac Arolygon

- Bydd ffurflenni cais, ffurflenni cofrestru ac arolygon yn cynnig dewis iaith er mwyn i gynrychiolwyr allu dewis eu llenwi yn Gymraeg neu yn Saesneg (ar wahân i Gymraeg i Oedolion lle mae'n briodol defnyddio'r Gymraeg yn unig)
- Dylid defnyddio'r cwestiynau canlynol i alluogi'r tîm Digwyddiadau i gyfathrebu a chynllunio'n effeithiol:
 - Pa iaith hoffech chi i ni ei defnyddio wrth gyfathrebu â chi? Cymraeg / Saesneg
 - Which language would you like us to use when communicating with you? Welsh / English
 - Bydd croeso i bawb sy'n mynychu'r digwyddiad hwn gyfrannu at drafodaethau yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Er mwyn ein cynorthwyo i gynllunio'n briodol ar gyfer y digwyddiad, nodwch eich dewis iaith: Cymraeg / Saesneg
 - All those attending this event will be welcome to contribute to discussions in either Welsh or English. To assist us in making appropriate plans for the event, please indicate your language preference: Welsh / English

Cyfieithu neu Grwpiau Cymraeg

- Dylid darparu cyfieithu ar y pryd (Cymraeg i Saesneg) pan mae unrhyw un sy'n mynychu digwyddiad wedi cadarnhau ei fod/bod yn dymuno cymryd rhan mewn trafodaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Pan mae niferoedd yn caniatáu, dylid cynnig grŵp Cymraeg. Gan fod nifer y cynrychiolwyr yn amrywio o 15-150+, bydd hyn yn cael ei ystyried fesul achos.
- Bydd cyfieithu ar y pryd yn cael ei ddarparu mewn grwpiau ymneilltuo os nad yw cynnal grŵp Cymraeg yn hyfyw.
- Dylid darparu sianel gyda chyfieithu ar y pryd pan ofynnir am y Gymraeg ar gyfer digwyddiadau ar-lein.

Rhaglenni / Arwyddion

- Dylai arwyddion a rhaglenni digwyddiadau fod yn ddwyieithog. Dylai'r Gymraeg ddod yn gyntaf, neu i'r chwith.

Cyflwyniadau a Deunyddiau

- Dylai cyflwyniadau sesiynau llawn fod yn ddwyieithog. Y Gymraeg yn gyntaf, neu i'r chwith.
- Dylai cyflwyniadau grŵp fod yn iaith y grŵp, ac yn ddwyieithog os yw'n grŵp dwyieithog.
- Dylai taflenni fod yn ddwyieithog. Pan nad yw hyn yn bosibl, er enghraifft wrth rannu enghreifftiau o waith dysgwyr, dylid rhannu taflenni yn iaith y grŵp.
- Dylid annog siaradwyr allanol sy'n gwneud cyflwyniadau yn nigwyddiadau Estyn i ddefnyddio sleidiau dwyieithog, ond nid yw'n orfodol.

Siaradwyr a Chadeiryddion

- Dylai cadeiryddion a'r rhai sy'n cynnal digwyddiadau ddechrau a gorffen y digwyddiad yn ddwyieithog a chefnogi trafodaethau yn y ddwy iaith trwy gydol y digwyddiad.
- Anogir cyfranogiad yn Gymraeg wrth ystyried aelodau'r panel.
- Dylid cynllunio digwyddiadau i fynd ati i ddangos ein bod yn croesawu defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg. I'r perwyl hwn, dylem anelu at sicrhau bod 50% o'r sesiynau llawn yn cael eu cyflwyno yn Gymraeg.

Cyfarch cynrychiolwyr

- Dylech gyfarch cynrychiolwyr trwy ddefnyddio 'bore da' a 'p'nawn da' hyd yn oed os nad ydych yn siarad Cymraeg. Mae geiriau eraill defnyddiol yn cynnwys 'diolch', 'hwy!', 'i'r chwith', 'i'r dde', 'syth ymlaen'. Bydd aelodau o'r Tîm Digwyddiadau a Chyfathrebu nad ydynt yn siarad Cymraeg yn mynychu sesiynau byr yn rhoi rhagflas o'r Gymraeg ar-lein, fel mater o drefn.
- Lle gwnaed cais i gymryd rhan mewn trafodaethau yn Gymraeg, byddai'n fuddiol cael aelod o staff sy'n siarad Cymraeg adeg cofrestru, os oes modd.
- Mewn digwyddiadau Cymraeg (h.y. Eisteddfod yr Urdd), dylai staff digwyddiadau siarad Cymraeg neu fod yn ddysgwyr ar lefel ganolraddol sy'n gallu cynnal sgwrs syml yn Gymraeg.
- Dylai unrhyw gyhoeddiadau dros seinyddion fod yn ddwyieithog.

Staff sy'n Siarad Cymraeg

- Dylai staff wisgo bathodynau iaith Gwaith i ddangos ein bod yn gallu cyfathrebu yn Gymraeg. Dylai dysgwyr wisgo bathodynau 'Dysgwr'.